# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Llun, 6 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd S.M. Allen (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Caiach, I.W. Davies, T.T. Defis, W.T. Evans, K. Madge, J. Owen, B.A.L. Roberts, E.G. Thomas, J.S. Williams, T. Davies (In place of E. Morgan) and P. Hughes-Griffiths (In place of G. Thomas)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Bracey - Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
C. Richards - Uwch Reolwr Diogelu
D. Llewellyn - Modernisation Programme Manager
S. Sauro - Swyddog Adolygu Perfformiad
A. Thomas - Prif Gyfrifydd
J. Thomas - Rheolwr Ardal Leol
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 - 11.00 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.J.R. Llewellyn, E. Morgan, G. Thomas a J. Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd J. Tremlett (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Madge | Rhifau Cofnod 6, 7 ac 8. | Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ei wraig yn gweithio yn Ysbyty Dyffryn Aman. |

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, 20$^{fed}$ Ebrill, 2017.**

## 6. TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â gweithredu'r ddeddfwriaeth o ran Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, effaith datblygu cyfraith achosion a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r risgiau cysylltiedig. Rhoddodd yr Uwch Reolwr Diogelu amlinelliad i'r Pwyllgor o gefndir y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gan ddweud mai nod y trefniadau diogelu oedd darparu proses gyfreithiol briodol ac amddiffyniad addas yn yr amgylchiadau hynny lle'r oedd yn ymddangos bod colli rhyddid yn anochel, er buddion pennaf unigolyn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014 wedi llwyddo i ostwng y trothwy ar gyfer atgyfeirio at Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a chafodd hyn effaith ar unwaith ar y gyfradd atgyfeirio. Canlyniad y cynnydd sydyn oedd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cronni llwyth sylweddol o geisiadau heb eu prosesu. Nodwyd fod Comisiwn y Gyfraith wedi cydnabod nad oedd y system bresennol yn gynaliadwy nac yn addas i'w diben. Bwriad y Comisiwn oedd gwneud cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig; fodd bynnag, roedd y ddeddfwriaeth bresennol yn debygol o fod mewn grym tan o leiaf 2018.

Nodwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i dderbyn rhwng 30 a 40 o atgyfeiriadau bob mis, ac ar y pryd roedd yna 630 o geisiadau yn aros i gael eu hasesu. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith mai gan y Cyngor yr oedd un o'r cyfraddau atgyfeirio uchaf, a hynny o ganlyniad i'r nifer uchel o sefydliadau preswyl/nyrsio sydd yn yr ardal. Cadarnhawyd fod yna 88 o gartrefi preswyl a nyrsio yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y Gwasanaeth wedi datblygu cynllun i reoli'r atgyfeiriadau a oedd wedi ôl-gronni ac a oedd yn parhau i lifo i mewn, a rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys secondio dau Aseswr Budd Pennaf dros dro llawn amser i weithio'n unig ar yr asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac i flaenoriaethu a rheoli'r ôl-groniad. Argymhelliad y cynllun oedd bod pob gweithiwr cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion yn cael eu hyfforddi fel Aseswyr Budd Pennaf a bod targedau realistig yn cael eu gosod ar gyfer nifer yr asesiadau a gaiff eu cwblhau gan bob tîm. Byddai systemau monitro ansawdd cadarn hefyd yn cael eu cyflwyno i sicrhau arferion cyson a chyfreithlon.

Codwyd pryder ynghylch hyfforddi'r holl weithwyr cymdeithasol i wneud asesiadau a'u gallu i gyflawni'r rôl hon. Tynnodd yr Uwch Reolwr Diogelu sylw at y ffaith fod cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau yn rhan o sgiliau craidd gweithwyr cymdeithasol ac mai'r nod oedd gwneud y gwaith o reoli atgyfeiriadau yn haws. Cafwyd cwestiynau pellach gan yr aelodau ynglŷn ag a fyddai'n fuddiol cael mwy o swyddogion penodedig i gyflawni'r rôl yn llawn amser.

Esboniodd y swyddogion mai'r nod oedd datblygu dull cynaliadwy o reoli'r galw a bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull tebyg. Nodwyd y byddai'r ôl-groniad o achosion yn cael ei glirio gan yr Aseswyr Budd Pennaf penodedig ac y byddai'r gweithwyr cymdeithasol yn rheoli llif y ceisiadau presennol a newydd.

Holodd yr aelodau sut y byddai'r eiriolwr ar gyfer y sawl a fyddai'n colli rhyddid yn cael ei benodi. Eglurwyd pe bai person yn yr ysbyty yna'r Bwrdd Iechyd fyddai'n gyfrifol am y broses a phe bai person mewn cartref gofal yna'r Cyngor fyddai'n gyfrifol. Esboniodd yr Uwch Reolwr Diogelu mai aelod o'r teulu fyddai fel rheol yn gweithredu fel eiriolwr, oni bai bod neb ar gael.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch nifer yr atgyfeiriadau a gaiff eu derbyn a'r ffaith fod pobl yn syrthio trwy'r rhwyd oherwydd y cynnydd yn y galw. Y farn oedd y dylid neilltuo mwy o gyllid i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w hannog i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn.

Gofynnodd yr aelodau beth oedd yn digwydd i bobl ar ôl iddynt gael eu hasesu a ph'un a oedd yna systemau priodol ar waith i ddarparu gwasanaethau yn dilyn yr asesiad. Nododd yr Uwch Reolwr Diogelu fod y broses yn un fiwrocrataidd iawn ac ar ôl i rywun gael ei asesu, byddai'n cael ei ailasesu o leiaf unwaith y flwyddyn. Byddai'r aseswr yn penderfynu ar y cyfnod amser sydd ei angen rhwng asesiadau. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod y person yn wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y rhan fwyaf o'r achosion, ac y byddai yna gynllun gofal ar waith i fynd i'r afael â'u hanghenion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 dderbyn yr adroddiad;**
**6.2 bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w hannog i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch dyrannu adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CYNLLUN GWELLA 2016/17 - CWARTER 3

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Perfformiad Cynllun Gwella 2016/17 a oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau a'r mesurau a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor, fel yr oedd ar 31ain Rhagfyr, 2016 mewn perthynas â Chwarter 3. Rhoddodd y Rheolwr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau wybod i'r Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn unol â'r targedau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod gwaith yn parhau i gael ei wneud i fynd i'r afael â'r camau gweithredu nad oeddent yn unol â'r targedau, i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r gwaith o ddatblygu Cynllun Comisiynu ar gyfer Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei gyflawni ac a fyddai yna adnoddau digonol ar gael. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymwneud â datganiad marchnad rhanbarthol a bod llawer o wybodaeth wedi cael ei chrynhoi trwy ymarferion megis ys Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, a fyddai'n llywio datblygiad y Cynllun. Nodwyd y byddai'r Cynllun yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd, er enghraifft opsiynau cyfyngedig o ran llety. Cadarnhawyd mai'r amserlen ar gyfer cwblhau hyn oedd mis Rhagfyr 2017.

Nodwyd y byddai adroddiad ar drawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno gerbron un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau yn yr ardal a gofynnodd a oedd y mater hwn yn derbyn sylw effeithiol. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i sicrhau fod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu. Mewn ymateb i ymholiadau cadarnhawyd fod yr Heddlu yn rhan o'r grŵp a bod adolygiad llawn o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau wedi cael ei gynnal i ganfod a oedd yna unrhyw themâu yn codi. Holodd yr aelodau ynghylch lleoliad yr 20 o welyau cam i lawr a gomisiynwyd i hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion yn brydlon o ysbytai o fis Rhagfyr hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017. Cadarnhaodd y swyddogion fod y gwelyau hyn yng Nghartref Gofal Gwernllwyn, Cross Hands ac yng Nghartref Gofal Plas y Bryn, Cwmgwili.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2016/17

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31ain Rhagfyr 2016, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gorwario £392k o ran y Gyllideb Refeniw ac y byddai yna -£1,990k o amrywiant net yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2016/17.

Mynegwyd pryder ynghylch y swyddi gwag a'r pwysau yr oedd hyn yn ei roi ar wasanaethau. Holwyd a oedd swyddi yn cael eu dal yn ôl rhag cael eu llenwi er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu nad oeddent yn dewis peidio â llenwi swyddi a bod yna anawsterau o ran recriwtio i rai swyddi gweithiwr cymdeithasol.

Nodwyd fod y Gwasanaeth yn gweithio gyda phrifysgolion i fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r dull hwn a holodd p'un a ellid gwneud cysylltiadau pellach gydag ysgolion i annog pobl i ystyried gwaith cymdeithasol fel proffesiwn o oed ifancach. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith fod peth gwaith eisoes yn cael ei wneud mewn ysgolion, e.e. gweithio gyda myfyrwyr Safon Uwch Gofal Cymdeithasol a lleoliadau profiad gwaith, ac y byddai'r Gwasanaeth yn parhau i adeiladu'r cysylltiadau hyn. Nodwyd gan aelodau eu bod yn derbyn ceisiadau gan bobl ifanc sydd wrthi'n cwblhau'r cymwysterau Dug Caeredin am gael gwneud gwaith gwirfoddol, ac awgrymwyd y gallai cynlluniau megis tai gwarchod elwa o'r gwaith gwirfoddol hwn. Cytunwyd y byddai'r awgrym hwn yn cael ei godi gyda'r Gwasanaethau Tai.

Nodwyd bod recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn broblem genedlaethol a bod yr adran yn ystyried cymhellion i annog gweithwyr cymdeithasol i weithio yn yr ardal. Gofynnodd yr aelodau am gael gwybodaeth am nifer y swyddi gweithiwr cymdeithasol sydd yn wag, a chytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd

Meddwl ac Anableddau Dysgu i gylchredeg adroddiad Cyngor Gofal Cymru ynglŷn â Phroffil Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru. Holodd yr aelodau ble'r oedd myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol a ph'un a oedd y cymwysterau yn cael eu cynnig yn lleol. Esboniodd y swyddogion bod rhaid i weithwyr cymdeithasol gwblhau gradd a bod yna nifer o raglenni yng Nghymru. Roedd yna hefyd opsiynau i bobl gwblhau'r cwrs trwy'r Brifysgol Agored gyda chymorth o'r gweithle, ac roedd cael y Cyngor i feithrin ei weithwyr cymdeithasol ei hun drwy'r broses hon yn rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried. Cytunwyd y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cadarnhau a oedd yna wybodaeth ar gael ynglŷn â pha awdurdodau lleol yr oedd gweithwyr cymdeithasol yn dychwelyd iddynt ar ôl cymhwyso, ac yn darparu mwy o wybodaeth am awdurdodau lleol a oedd yn meithrin eu gweithwyr cymdeithasol eu hunain.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai cynghorau wedi newid eu cyfnod rhybudd i dri mis, a oedd yn achosi oedi yn y broses recriwtio. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried dull tebyg. Nododd yr aelodau hefyd fod yna oedi rhwng gweithio'r cyfnod rhybudd a hysbysebu swyddi a'r farn oedd y byddai cyfnod cysgodi yn fuddiol.

Eglurwyd bod y talfyriad SSMSS yn sefyll am Social Services Management and Support Services (Gwasanaethau Rheoli a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol). Esboniodd Cyfrifydd y Grŵp mai term Llywodraeth Cymru yw hwn a'i fod yn cyfeirio at reoli'r adran a chymorth busnes. Holodd yr aelodau beth oedd diben y cyfrif dal ar gyfer cludiant, a nodwyd ei fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn dosbarthu costau cludiant i adrannau sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Gofynnodd yr aelodau am gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Gofal Ychwanegol a'r Prosiect ARCH yn Llanelli. Rhoddodd Rheolwr y Rhaglen Foderneiddio wybod iddynt fod Tîm y Prosiect yn cwrdd yn rheolaidd ac y byddai cais yn cael ei wneud am adroddiad diweddaru. Nodwyd fod y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect ARCH wedi cael ei rhoi i'r Cyngor fel rhan o gyflwyniad y Fargen Ddinesig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 10. DERBYN COFNODION CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGORAU CRAFFU ADDYSG A PHLANT A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD, A GYNHALIWYD AR Y 25AIN IONAWR, 2017

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant a'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 25ain Ionawr 2017.**

## 11. COFNODION - 25AIN IONAWR 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25ain Ionawr, 2017 yn gofnod cywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD